Yr Afon fechan Benderfynol

Wynebu anawsterau / Bod yn benderfynol / Peidio gadael i anawsterau fod yn dramgwydd

Cychwynnodd yr afon fechan ar ei ffordd i'r môr. Dim ond ychydig o dd_r oedd yn diferu i lawr y bryn. "Mae'n rhaid i mi gyrraedd y môr mawr" meddai'r afon fechan.
Ond yn y man daeth yr afon fechan ar draws cerrig mawrion. "Chei di ddim mynd i'r môr" meddai'r cerrig mawrion, "mi wnawn ni dy rwystro di."
Ond i lawr y bryn yr aeth yr afon fechan gan droelli heibio'r cerrig. Drwy'r adeg 'roedd yr afon fechan yn dweud wrth fynd heibio'r cerrig, "Mae'n rhaid i mi gyrraedd y môr mawr."
Ar ôl mynd heibio'r cerrig daeth yn y man i dwll mawr, mawr. Agorodd y twll ei geg yn fawr a syrthiodd yr afon i'r twll mawr. Ond yng ngwaelod y twll mawr 'roedd yna dwnel tywyll. Ymlaen aeth yr afon fechan drwy'r twnel. Clywodd y twll mawr yn dweud, "Chei di ddim mynd ar dy daith, mi wnai i dy rwystro di."
Ond ymlaen aeth yr afon fechan gan ddweud, "Mae'n rhaid i mi gyrraedd y môr mawr."
Erbyn hyn 'roedd yr afon wedi cyrraedd y tir gwastad. 'Roedd hi'n anodd iawn symud ar y tir gwastad. Cyn cyrraedd y tir gwastad 'roedd yr afon wedi dod i lawr y bryn. Meddai'r tir gwastad wrth yr afon, "Chei di ddim mynd i'r môr mawr, mi rydw i am dy rwystro di."
'Roedd yr afon fechan braidd yn ddigalon erbyn hyn. 'Roedd hi'n credu'n siŵr na fyddai hi byth yn cyrraedd y môr. Ond yn araf bach diferodd yr afon ei ffordd tua'r môr. "Mae'n rhaid i mi gyrraedd y môr mawr" meddai wrthi'i hun.
Erbyn hyn 'roedd y haf wedi mynd heibio a'r hydref wedi cyrraedd.
"Mi faswn i'n hoffi cyrraedd y môr cyn i'r gaeaf ddod", meddai wrthi'i hun.
Pan ddaw'r gaeaf mi fydd pob man yn oer a bydd y dŵr wedi

rhewi. Treiglai'r afon yn araf, araf. Daeth y gaeaf. Dechreuodd y dŵr rewi. Daeth yr eira ac erbyn hyn 'roedd y byd i gyd yn wyn.
"Chei di ddim mynd ar y daith hir" meddai'r rhew wrth yr afon. "Rydw i am dy wneud yn llonydd. Fedri di ddim symud o gwbl." Roedd yr afon fechan yn teimlo'n ddigalon iawn. Ond un diwrnod daeth yr haul allan. Diflannodd y rhew. Dyma'r afon fechan yn cychwyn ar ei thaith unwaith eto tua'r môr.
"Mae'n rhaid i mi gyrraedd y môr mawr", meddai.
Cyrhaeddodd yr afon ddŵr yr afon fawr oedd yn llifo i'r môr.
"O" meddai'r afon fechan, "beth wnai yn awr? Wnai byth gyrraedd y môr. Mi fydda i wedi cymysgu efo dŵr yr afon fawr."
Clywodd yr afon fawr sibrwd yr afon fechan ac meddai, "Mi fyddi di'n siŵr o gyrraedd y môr mawr; fe gei di ddod efo mi. Mi wnai i dy helpu i gyrraedd y môr."
Felly dyma'r afon fawr yn llifo'n gyflym ar ei thaith i'r môr. Roedd llongau'n hwylio ar y dŵr a phlant a phobl yn pysgota ar y lan. Aeth yr afon yn lletach ac yn lletach. Dim ond dŵr oedd ymhob man. Roedd y dŵr yn ddŵr hallt erbyn hyn. Roedd yr afon fechan wedi cyrraedd y môr o'r diwedd.

O Dduw, gwna fi'n berson penderfynol. Mi ydw i eisiau bod yn benderfynol i wneud popeth da. Amen.

- Rhestrwch y pethau oedd yn rhwystro'r afon fechan rhag iddi gyrraedd y môr.
- Beth ddigwyddodd i'r afon fechan yn y diwedd?
- Sut afon oedd yr afon fawr?